# Ffurflen Caniatâd Rhiant / Gwarcheidwad

Diolch i chi am ddarllen y wybodaeth am roi samplau i'r VIVO Biobank ar gyfer ymchwil i ganser. Cofiwch fod hyn ar wahân i unrhyw dreial clinigol y gellid gofyn i'ch plentyn fod yn rhan ohono. Os hoffech gymryd rhan, llythrennwch eich enw yn y blychau isod os gwelwch yn dda.

Rhif y Claf

| |
|---|
| |

1. Rwyf wedi darllen a deall y daflen wybodaeth i rieni / gwarcheidwaid (fersiwn 1a Mehefin 2023) ac wedi gallu gofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau hyn wedi eu hateb yn glir. ☐
2. Rhoddaf ganiatâd i VIVO Biobank storio samplau fy mhlentyn (sy'n weddill i angen clinigol). Byddant ond yn cael eu rhoi i brosiectau ymchwil a gymeradwywyd yn foesegol i ymchwilio i atal, diagnosis a / neu drin canser. ☐
3. Rhoddaf ganiatâd i VIVO Biobank storio samplau ychwanegol, i'w cymryd ar yr un pryd â'r sampl clinigol. Byddant ond yn cael eu rhoi i brosiectau ymchwil a gymeradwywyd yn foesegol i ymchwilio i atal, diagnosis a / neu drin canser. ☐
4. Deallaf fod fy nghaniatâd yn wirfoddol a fy mod yn rhydd i dynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm a heb effeithio ar driniaeth feddygol na hawliau cyfreithiol fy mhlentyn. Os tynnaf fy nghaniatâd yn ôl, bydd samplau a data'n cael eu dinistrio oni bai eu bod eisoes yn cael eu defnyddio mewn ymchwil. ☐
5. Rhoddaf ganiatâd i ddata clinigol fy mhlentyn yn eu nodiadau meddygol gael ei roi i VIVO Biobank a'i storio'n ddiogel yn eu databas i bwrpas ymchwil. Deallaf y bydd VIVO Biobank yn cadw'r wybodaeth yma'n gyfrinachol bob amser, wedi'i storio'n ddiogel yn unol â'r rheoliadau data presennol a dim ond yn ei rhoi i ymchwilwyr mewn ffordd sy'n diogelu manylion adnabod fy mhlentyn. ☐
6. Deallaf y gall y wybodaeth a gedwir ar gofrestri iechyd cenedlaethol gael ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth am statws iechyd fy mhlentyn. ☐
7. Rhoddaf ganiatâd i ddata meinwe a chlinigol fy mhlentyn, a gasglwyd gan VIVO Biobank, gael ei gysylltu â data genomig wedi'i gynhyrchu a'i gadw gan NHS England / Genomics England a / neu labordai clinigol eraill. ☐
8. Cytunaf i ddeunydd genetig fy mhlentyn, e.e. DNA, gael ei dynnu allan o samplau wedi eu storio gan VIVO Biobank, a'i brofi i bwrpas ymchwil. ☐
9. Deallaf y gallai samplau a / neu ddata fy mhlentyn, gan gynnwys data wedi'i gyhoeddi, fod ar gael i ymchwilwyr ar draws y byd, gan gynnwys gwledydd sydd heb gyfreithiau diogelu data tebyg i rai'r DU, ond na fydd gwybodaeth adnabod bersonol yn cael ei rhannu. ☐
10. Deallaf na fyddaf yn cael gwybod canlyniadau unrhyw brosiectau ymchwil. Os yw ymchwil yn dangos canlyniadau a allai effeithio ar driniaeth fy mhlentyn, rwyf yn cytuno y gellir eu pasio ymlaen i feddyg fy mhlentyn i drafod beth orau i'w wneud. ☐
11. Deallaf na fyddaf i na fy mhlentyn yn elwa'n ariannol o roi samplau fy mhlentyn, gan gynnwys eu defnyddio mewn ymchwil yn arwain at ddatblygu triniaeth neu brawf meddygol newydd. ☐

**Dewisol**

12. Cytunaf i samplau a data fy mhlentyn gael eu defnyddio mewn ymchwil a gymeradwywyd yn foesegol gydag anifeiliaid ac y gallai deunydd o'r samplau gael ei drosglwyddo i anifeiliaid.

Dangoswch eich dewis drwy lythrennu un blwch. Ydw ☐ Nac ydw ☐

| Enw'r rhiant (PRIF LYTHRENNAU) | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|
| Enw'r plentyn (PRIF LYTHRENNAU) | Llofnod | Dyddiad |
| Person yn derbyn y caniatâd (PRIF LYTHRENNAU) | Llofnod | Dyddiad |

**1 copi yn ffeil y safle, 1 copi i'r rhiant / gwarcheidwad / claf, 1 copi i'w gadw yn nodiadau meddygol y claf.**